

Adnodd data ar y gweithlu a'r iaith Gymraeg i gefnogi cynllunio gofal sylfaenol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystadegau amrywiol yn ymwneud â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Amcan yr adroddiad hwn yw darparu data sylfaenol ar ddarpariaeth Gymraeg, a'r galw am ddarpariaeth Gymraeg, ym maes gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae'n seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau gwahanol.

Yn 2013, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad i'r iaith Gymraeg ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru. Y nod oedd ymchwilio i brofiad siaradwyr Cymraeg sy'n derbyn, neu'n methu derbyn, gwasanaethau Cymraeg gan ddarparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru. Roedd adroddiad terfynol yr ymchwiliad yn argymhell cyhoeddi ystadegau fel gwaelodlin ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yn y Gymraeg.

Ystadegydd: Alan Jackson **Ffôn:** 029-2082-5058 **E-bost:** ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk
Diweddariad nesaf: Ddim yn allbwn rheolaidd
Twitter: www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

Cyhoeddwyd gan Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 5050**
www.llyw.cymru/ystadegau

Issued by Knowledge and Analytical Services
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**
www.gov.wales/statistics



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNNWYS

cefndir	3
crynodeb o'r adroddiad	5
strwythur yr adroddiad	6
gofal sylfaenol	7
yr iaith Gymraeg	11
mesurau anuniongyrchol o siaradwyr Cymraeg a gwasanaethau iechyd	21
mesurau uniongyrchol o siaradwyr Cymraeg a gwasanaethau iechyd	28
proffil o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr	35
proffil o Fwrdd Iechyd Powys	38
proffil o Fwrdd Iechyd Hywel Dda	41
proffil o Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg	44
proffil o Fwrdd Iechyd Cwm Taf	47
proffil o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan	50
proffil o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	53

Gofal Sylfaenol a'r Iaith Gymraeg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystadegau amrywiol yn ymwneud â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

CEFNDIR

diben yr adroddiad hwn

Amcan yr adroddiad hwn yw darparu data sylfaenol ar ddarpariaeth Gymraeg, a'r galw am ddarpariaeth Gymraeg, ym maes gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae'n seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau gwahanol. Gall cynllunwyr iechyd gofal sylfaenol ei ddefnyddio i ddeall yr angen am ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol, a gan ddefnyddwyr eraill i ddeall mwy am y rhyngweithio rhwng darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal sylfaenol, a'r galw amdani.

cefndir

Yn 2013, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg [ymchwiliad i'r iaith Gymraeg ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru](#). Y nod oedd ymchwilio i brofiad siaradwyr Cymraeg sy'n derbyn, neu'n methu derbyn, gwasanaethau Cymraeg gan ddarparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru. Roedd adroddiad terfynol yr ymchwiliad yn argymhell cyhoeddi ystadegau fel gwaelodlin ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yn y Gymraeg.

diffiniad o ofal sylfaenol

Mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru wedi'i rannu'n ddwy haen: gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Gofal iechyd sylfaenol yw cysylltiad cyntaf pobl â'r system gofal iechyd. Fel arfer, y darparwr gofal sylfaenol yw'r cyswllt cyntaf, a'r prif gyswllt gofal parhaus, ar gyfer cleifion yn y system gofal iechyd. Hefyd, mae'n cydgysylltu mathau eraill o ofal arbenigol ar gyfer cleifion sydd â phroblemau iechyd lluosog. Fel arfer, mae cleifion yn derbyn gofal sylfaenol gan weithwyr proffesiynol fel meddyg teulu, deintydd, optometrydd, neu nyrs ardal. Yn GIG Cymru, y meddyg teulu yw prif ffynhonnell gofal iechyd sylfaenol.

Gan ddibynnu ar natur y cyflwr iechyd, gall cleifion gael eu hatgyfeirio i ofal eilaidd wedyn. Fel arfer, mae gofal eilaidd yn cyfeirio at y gofal sy'n cael ei roi i glaf mewn ysbyty, naill ai fel claf preswyl neu glaf allanol. Nid yw'r adroddiad hwn yn trafod triniaeth ysbyty neu fathau eraill o ofal eilaidd.

sgiliau iaith Gymraeg

Cyfrifiad 2011 yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth am nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Gofynnodd y Cyfrifiad un cwestiwn syml:

17 A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

➡ Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol

- ☐ Deall Cymraeg llafar
- ☐ Siarad Cymraeg
- ☐ Darllen Cymraeg
- ☐ Ysgrifennu Cymraeg
- ☐ Dim un o'r uchod

Mae arolygon eraill wedi gofyn cwestiynau manylach am sgiliau iaith Gymraeg, ond un o fanteision data'r Cyfrifiad yw'r ffaith fod y data ar gael ar gyfer ardaloedd daearyddol bach.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu gwybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg hefyd. Gofynnwyd i'r bobl a gymerodd ran yn yr Arolwg Cenedlaethol nodi pawb ar yr aelwyd a oedd yn gallu siarad Cymraeg.

Wedyn, roedd cyfle i bob siaradwr Cymraeg ar yr aelwyd gwblhau holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith. Amcan yr arolwg hwn oedd casglu gwybodaeth gan oedolion a phobl ifanc, gan ofyn pa mor dda y gallent siarad Cymraeg, pa mor aml roeddent yn ei siarad, a ble, pryd, ac â phwy roeddent yn defnyddio'r Gymraeg.

Mae Arolwg Cenedlaethol 2014-15 yn cynnwys cwestiwn (am y tro cyntaf) ar gyfer ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg am eu dewis iaith wrth ymwneud â staff ieuchyd neu staff gofal cymdeithasol, a chwestiwn yn holi a ddefnyddiwyd y Gymraeg mewn sefyllfa o'r fath yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae rhai ffynonellau gweinyddol yn darparu gwybodaeth am eu darpariaeth Gymraeg, fel nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg neu nifer y galwadau ffôn i Galw Iechyd Cymru a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg.

CRYNODEB O'R ADRODDIAD

Mae llawer o ddata gweinyddol ar gael ar y gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol sydd ar gael yng Nghymru (nifer y meddygon teulu, nifer y nyrsys ardal, ...).

Mae'r Cyfrifiad ac arolygon gwahanol yn darparu gwybodaeth fanwl am grwpiau demograffig sy'n debygol o fod angen gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol (pobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor, pobl dros 75 oed, ...).

Mae arolygon amrywiol yn darparu gwybodaeth fanwl am allu pobl i siarad Cymraeg (siaradwyr Cymraeg, rhuglder, ...), a'u tuedd a'u hawydd i'w defnyddio (defnydd bob dydd, dewis iaith, ...). Am y tro cyntaf, roedd Arolwg Defnydd Iaith 2014-15 yn cynnwys cwestiwn am ddewis iaith ymatebwyr (Cymraeg neu Saesneg) wrth ymwneud â staff iechyd neu staff gofal cymdeithasol, a chwestiwn yn holi a oedd y Gymraeg wedi'i defnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae llinell ffôn gymorth Galw Iechyd Cymru yn ateb galwadau yn y Gymraeg, y Saesneg a thros 120 o ieithoedd eraill drwy linell iaith, gan gofnodi pa iaith sy'n cael ei defnyddio.

Fodd bynnag, ychydig iawn o ddata uniongyrchol sydd ar gael ar ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg (dim ond nifer y meddygon teulu sy'n siarad Cymraeg). Mae'r dosbarthiad galwedigaethol safonol yn dosbarthu galwedigaeth pobl i un o naw categori eang. Roedd sawl cwestiwn yng Nghyfrifiad 2011 yn ymwneud â chyflogaeth, a defnyddiwyd y dosbarthiad hwn i godio'r data. Hefyd, mae dosbarthiad diwydiannol safonol yn cael ei ddefnyddio i ddosbarthu sefydliadau busnes ar sail y math o waith y maent yn ei wneud. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys tablau amrywiol sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2011 ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol, ynghyd â'u gallu i siarad Cymraeg. Mae hyn yn dangos darpariaeth bosibl gwasanaethau iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru yw'r data a roddir, ond mae yna amrywiadau mawr mewn rhai byrddau iechyd. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau hyn yn tueddu i fod yn llai amlwg wrth gyfrifo cyfartaleddau data awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cynnwys ardaloedd â lefelau uchel a lefelau isel o siaradwyr Cymraeg. Mae Proffiliau'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno data awdurdodau lleol sy'n dangos y amrywiadau hyn.

Gan nad oes llawer o ddata uniongyrchol ar gael ar ddarpariaeth bosibl gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, gellid dadlau y dylid casglu data ar allu Cymraeg gweithwyr iechyd sylfaenol a chymunedol eraill mewn ffordd debyg i'r dull o gasglu data ar nifer y meddygon teulu sy'n siarad Cymraeg.

STRWYTHUR YR ADRODDIAD

Mae prif ran yr adroddiad yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- ystadegau gofal sylfaenol (heb fod yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg);
- ystadegau'r iaith Gymraeg (heb fod yn gysylltiedig â gofal sylfaenol);
- dulliau anuniongyrchol o fesur y defnydd o'r Gymraeg a'r defnydd o wasanaethau iechyd;
- dulliau uniongyrchol o fesur y defnydd o'r Gymraeg a'r defnydd o wasanaethau iechyd;
- proffiliau byrddau iechyd (crynodeb o ystadegau ar gyfer pob bwrdd iechyd).

Yn y rhan fwyaf o'r adroddiad, cyflwynir ystadegau ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru.

Mae yna amrywiadau mawr mewn rhai byrddau iechyd sy'n tueddu i fod yn llai amlwg wrth gyfrifo cyfartaleddau data awdurdodau lleol. Mae Proffiliau'r Byrddau Iechyd yn cyflwyno data awdurdodau lleol sy'n dangos yr amrywiadau hyn.

Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli ystadegau sy'n cyfuno'r gallu i siarad Cymraeg a nodwedd sy'n gysylltiedig ag iechyd.


Er enghraifft,

<gyfran y bobl dros 75 oed sy'n siarad Cymraeg>

Yr un fath â

<chyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg sydd dros 75 oed>.

Yn fwy cyffredinol:



Cyfran y bobl â nodwedd X sy'n siarad Cymraeg yw $\frac{B}{B+C}$

a chyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg ac sydd â nodwedd X yw $\frac{B}{A+B}$

Gall y ddwy gyfran fod yn debyg, ond os felly bydd hynny'n gyd-ddigwyddiad (bydd yn digwydd pan fydd nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg debyg i nifer y bobl sydd â nodwedd X).

GOFAL SYLFAENOL

Mae'r adran hon yn cyflwyno ystadegau amrywiol o ffynonellau gweinyddol yn ymwneud â:

- Meddygon teulu a phractisau meddygon teulu;
- deintyddion;
- fferyllwyr;
- optegwyr;
- bydwragedd, ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal.

Mae Tablau 1 i 6 yn dangos i ba raddau y mae gwasanaethau gofal sylfaenol ar gael ym mhob bwrdd iechyd lleol (heb gyfeirio at yr iaith Gymraeg).

Tabl 1
Practisau meddygon teulu a meddygon teulu, byrddau iechyd yng Nghymru, mis Medi 2014

bwrdd iechyd	nifer	
	practisau meddygon teulu	meddygon teulu (a)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	114	446
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	17	98
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	55	253
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	76	346
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	46	170
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	88	382
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cymru	66	311
	462	2,006

ffynhonnell: Cyfrifiad Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

a) ac eithrio Cofrestryddion mewn Practisau Cyffredinol, Ymarferwyr Cyffredinol Wrth Gefn, a Meddygon Locwm.

Tabl 2
Meddygon teulu fesul 10,000 o'r boblogaeth, byrddau iechyd yng Nghymru, 2004 – 2014

	Meddygon teulu fesul 10,000 o'r boblogaeth		
	2004	2009	2014
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	6.1	6.4	6.4
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	7.3	7.3	7.4
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	6.4	6.8	6.6
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	6.3	6.7	6.6
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	5.6	5.5	5.8
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	6.0	6.6	6.6
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cymru	6.2	6.8	6.5
	6.2	6.5	6.5

ffynhonnell: Cyfrifiad Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Tabl 3
nifer y deintyddion sy'n gwneud gwaith i'r GIG, byrddau iechyd yng Nghymru, 2014-2015

	nifer y deintyddion (a)	amcangyfrif o'r boblogaeth ganol blwyddyn	deintyddion fesul 10,000 o'r boblogaeth
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	328	694,038	4.7
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	102	132,675	7.7
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	199	383,989	5.2
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	377	523,001	7.2
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	348	295,953	11.8
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	408	580,401	7.0
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cymru (b)	479	481,979	9.9
	1,439	3,092,036	4.7

ffynhonnell: Gwasanaethau Deintyddol y GIG

(a) Perfformwyr â gwaith y GIG wedi'i gofnodi drwy ffurflenni FP17W.

(b) I nodi y gall deintyddion fod â chontractau â mwy nag un Bwrdd Iechyd. Felly, ni fydd cyfanswm Cymru ar gyfer Nifer y Deintyddion sy'n gwneud gwaith i'r GIG yn cyfateb i gyfanswm y Byrddau Iechyd unigol.

Tabl 4
fferyllfeydd cymunedol, byrddau iechyd yng Nghymru, 2014-2015

	nifer y fferyllfeydd	rhoi meddyginiaeth presgripsiwn o dan oruchwyliaeth
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	155	89
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	23	17
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	99	73
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	125	115
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	77	69
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	130	86
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	107	53
Cymru	716	502

ffynhonnell: Gwasanaethau Presgripsiwn, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Mae Gwasanaeth Ychwanegol Fframwaith Cytundebol Fferyllfeydd Cymunedol y GIG yn cynnwys rhoi meddyginiaeth presgripsiwn o dan oruchwyliaeth.

Mae'r gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r fferyllfeydd oruchwyllo unigolyn yn cymryd meddyginiaeth presgripsiwn adeg ei gweinyddu yn y fferyllfa, gan sicrhau bod y dos wedi'i rhoi i'r claf. Bydd y fferyllfa yn darparu cymorth a chynghor i'r claf, gan gynnwys ei atgyfeirio i ofal sylfaenol neu ganolfan arbenigol lle bo hynny'n briodol.

Mae enghreifftiau o feddyginiaethau y gellid goruchwyllo eu defnydd yn cynnwys methadon a meddyginiaethau eraill sy'n cael eu defnyddio i reoli dibyniaeth ar gyffuriau opiad, a meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio i reoli cyflyrau iechyd meddwl neu dwbercwlosis.

Tabl 5
gwasanaethau offthalmig, byrddau iechyd yng Nghymru, 2014-2015

	nifer yr ymarferwyr offthalmig	nifer y profion llygaid
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol		
Betsi Cadwaladr	173	154,388
Bwrdd Iechyd Lleol		
Addysgu Powys	30	25,622
Bwrdd Iechyd Lleol		
Prifysgol Hywel Dda	75	98,449
Bwrdd Iechyd Lleol		
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	116	130,504
Bwrdd Iechyd Lleol		
Prifysgol Cwm Taf	71	81,895
Bwrdd Iechyd Lleol		
Prifysgol Aneurin Bevan	157	147,511
Bwrdd Iechyd Lleol		
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	174	111,875
Cymru (a)	776	750,244

ffynhonnell: Gwasanaethau Contractwyr, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

(a) Gall ymarferwyr fod ar fwy nag un rhestr Bwrdd Iechyd Lleol. Felly, ni fydd cyfanswm Cymru ar gyfer Nifer yr Ymarferwyr Offthalmig yn cyfateb i gyfanswm y Byrddau Iechyd unigol.

Tabl 6
niferoedd staff nyrsio, byrddau iechyd yng Nghymru, 2014

	bydwragedd	ymwelwyr iechyd	nyrs ardal
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol			
Betsi Cadwaladr	394	194	187
Bwrdd Iechyd Lleol			
Addysgu Powys	36	42	35
Bwrdd Iechyd Lleol			
Prifysgol Hywel Dda	175	116	62
Bwrdd Iechyd Lleol			
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	351	207	77
Bwrdd Iechyd Lleol			
Prifysgol Cwm Taf	197	115	124
Bwrdd Iechyd Lleol			
Prifysgol Aneurin Bevan	220	170	106
Bwrdd Iechyd Lleol			
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	266	189	87
Cymru	1,641 (a)	1,033	678

ffynhonnell: Gwasanaethau'r Gweithlu, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

(a) Yn cynnwys 2 o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

YR IAITH GYMRAEG

Mae'r adran hon yn cyflwyno amrywiaeth o ystadegau o Gyfrifiad 2011 a'r Arolwg Defnydd Iaith yn ymwneud â:

- siaradwyr Cymraeg;
- y newid yn niferoedd y siaradwyr dros amser;
- rhuglder;
- pa mor aml y defnyddir y Gymraeg;
- dewis iaith a'r iaith a ddefnyddiwyd yn fwyaf diweddar.

Mae Tablau 7 i 18 yn rhoi syniad o lefel sgiliau Cymraeg a lefel defnydd yr iaith ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol (heb gyfeirio at wasanaethau gofal sylfaenol).

Roedd Cyfrifiad 2011 yng Nghymru yn cynnwys cwestiwn am sgiliau Cymraeg. Dyma'r cwestiwn:

17 A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

➔ Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol

☐ Deall Cymraeg llafar

☐ Siarad Cymraeg

☐ Darllen Cymraeg

☐ Ysgrifennu Cymraeg

☐ Dim un o'r uchod

Mae Tablau 7 i 14 yn cynnwys rhywfaint o ddata'r cyfrifiad ar y gallu i siarad Cymraeg ar gyfer oeddrannau gwahanol:

- pob oedran,
- plant, 3-15 oed;
- oedran gweithio, 16-64 oed;
- pobl hŷn, 65 oed a throsodd.

Mae yna amrywiadau mawr mewn rhai byrddau iechyd sy'n tueddu i fod yn llai amlwg wrth gyfrifo cyfartaleddau data awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cynnwys ardaloedd â lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg (Ynys Môn a Gwynedd), lefelau cyffredin (Conwy a Sir Ddinbych), a lefelau isel (Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae'r adroddiadau byr ar wahân, Proffiliau Byrddau Iechyd, yn cyflwyno data awdurdodau lleol sy'n dangos yr amrywiadau hyn (maent yn fersiynau estynedig o broffiliau'r byrddau iechyd ar dudalennau 35 i 55 ar ddiwedd yr adroddiad hwn).

Siaradwyr Cymraeg (pob oedran)

Tabl 7
nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg (pob oedran), byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

2011	yn gallu siarad Cymraeg	ddim yn gallu siarad Cymraeg	cyfanswm	canran siaradwyr Cymraeg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	204,406	459,402	663,808	30.8%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	23,990	105,093	129,083	18.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	135,798	234,083	369,881	36.7%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	60,133	440,845	500,978	12.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	32,807	249,371	282,178	11.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	54,958	500,664	555,622	9.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cymru	49,924	404,367	454,291	11.0%
	562,016	2,393,825	2,955,841	19.0%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 8
newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg (pob oedran),
byrddau iechyd yng Nghymru, 2001 i 2011

	newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011		newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	i lawr	6,095	i lawr	2.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	i lawr	1,824	i lawr	7.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	i lawr	10,283	i lawr	7.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	i lawr	5,606	i lawr	8.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	i lawr	671	i lawr	2.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	i lawr	299	i lawr	0.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	i fyny	4,426	i fyny	9.7%
Cymru	i lawr	20,352	i lawr	3.5%

ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011

Siaradwyr Cymraeg, plant (3-15 oed)

Tabl 9
nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg (3-15 oed),
byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

2011	yn gallu siarad Cymraeg	ddim yn gallu siarad Cymraeg	cyfanswm	canran siaradwyr Cymraeg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	48,753	50,471	99,224	49.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	7,582	11,418	19,000	39.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	29,957	24,107	54,064	55.4%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	19,511	54,775	74,286	26.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	12,892	31,328	44,220	29.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	31,146	58,069	89,215	34.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	18,909	49,763	68,672	27.5%
Cymru	168,750	279,931	448,681	37.6%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 10
newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg (3-15 oed),
byrddau iechyd yng Nghymru, 2001 i 2011

	newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011		newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	i lawr	4,370	i lawr	8.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	i lawr	841	i lawr	10.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	i lawr	2,955	i lawr	9.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	i lawr	757	i lawr	3.7%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	i lawr	1,455	i lawr	10.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	i lawr	4,690	i lawr	13.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	i lawr	589	i lawr	3.0%
Cymru	i lawr	15,657	i lawr	8.5%

ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011

Siaradwyr Cymraeg, oedran gweithio (16-64 oed)

Tabl 11
nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg (16-64 oed),
byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

2011	yn gallu siarad Cymraeg	ddim yn gallu siarad Cymraeg	cyfanswm	canran siaradwyr Cymraeg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	118,053	308,206	426,259	27.7%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	11,940	67,897	79,837	15.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	75,787	159,456	235,243	32.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	29,726	303,249	332,975	8.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	17,572	170,517	188,089	9.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	21,672	343,529	365,201	5.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	27,584	289,428	317,012	8.7%
Cymru	302,334	1,642,282	1,944,616	15.5%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 12
newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg (16-64 oed),
byrddau iechyd yng Nghymru, 2001 i 2011

	newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011		newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	i lawr	1,558	i lawr	1.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	i lawr	526	i lawr	4.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	i lawr	5,786	i lawr	7.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	i lawr	1,356	i lawr	4.4%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	i fyny	2,367	i fyny	15.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	i fyny	4,763	i fyny	28.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	i fyny	4,913	i fyny	21.7%
Cymru	i fyny	2,817	i fyny	0.9%

ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011

Siaradwyr Cymraeg, pobl hŷn (65 oed a throsodd)

Tabl 13
nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg (65 oed a throsodd),
byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

2011	yn gallu siarad Cymraeg	ddim yn gallu siarad Cymraeg	cyfanswm	canran siaradwyr Cymraeg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	37,600	100,725	138,325	27.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	4,468	25,778	30,246	14.8%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	30,054	50,520	80,574	37.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	10,896	82,821	93,717	11.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	2,343	47,526	49,869	4.7%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	2,140	99,066	101,206	2.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	3,431	65,176	68,607	5.0%
Cymru	90,932	471,612	562,544	16.2%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 14
newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg (65 oed a throsodd),
byrddau iechyd yng Nghymru, 2001 i 2011

	newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011		newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg 2001 i 2011	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	i lawr	167	i lawr	0.4%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	i lawr	457	i lawr	9.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	i lawr	1,542	i lawr	4.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	i lawr	3,493	i lawr	24.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	i lawr	1,583	i lawr	40.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	i lawr	372	i lawr	14.8%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	i fyny	102	i fyny	3.1%
Cymru	i lawr	7,512	i lawr	7.6%

ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011

Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran yn yr Arolwg Cenedlaethol nodi pawb ar yr aelwyd a allai siarad Cymraeg.

Wedyn, cafodd pob siaradwyr Cymraeg ar yr aelwyd gopi o holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith i'w gwblhau ei hun. Nod yr arolwg hwn oedd cael gwybodaeth gan oedolion a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.

Gofynnodd yr arolwg

- pa mor dda oedden nhw'n gallu siarad Cymraeg;
- pa mor aml oedden nhw'n defnyddio'r Gymraeg;
- ble a phryd oedden nhw'n defnyddio'r Gymraeg;
- gyda phwy oedden nhw'n defnyddio'r Gymraeg.

Mae Tablau 15 i 18 yn cynnwys rhai o ganlyniadau'r arolwg.

Tabl 15
gallu ieithyddol siaradwyr Cymraeg, byrddau iechyd yng Nghymru, 2013-15

	yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl	yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg	yn gallu siarad ychydig o Gymraeg	yn gallu siarad ychydig eiriau o Gymraeg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	56%	19%	20%	6%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	42%	24%	21%	12%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	61%	20%	15%	4%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	33%	29%	29%	9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	41%	24%	25%	10%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	20%	23%	36%	21%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	37%	21%	28%	13%

ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15

Tabl 16
pa mor aml mae siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg, byrddau iechyd yng Nghymru, 2013-15

	yn siarad Cymraeg bob dydd	yn siarad Cymraeg bob wythnos	yn siarad Cymraeg yn llai aml	byth yn siarad Cymraeg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	63%	15%	18%	4%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	46%	22%	28%	4%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	68%	16%	14%	2%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	32%	25%	34%	9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	41%	23%	31%	5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	31%	29%	28%	11%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	47%	20%	25%	9%

ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15

Tabl 17
yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio, byrddau iechyd yng Nghymru, 2013-15

	Cymraeg	Saesneg	yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith	yn fwyaf cartrefol yn y Gymraeg neu'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	33%	44%	23%	56%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	14%	53%	33%	47%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	26%	41%	33%	59%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	5%	63%	31%	36%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	2%	73%	26%	28%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	2%	80%	16%	18%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	11%	67%	21%	33%

ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15

Tabl 18
iaith y sgwrs fwyaf diweddar (y tu allan i'r teulu), byrddau iechyd yng Nghymru, 2013-15

	Cymraeg	Saesneg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	45%	55%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	21%	79%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	41%	58%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	15%	84%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	11%	89%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	6%	94%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	15%	84%


ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15

Mae yna 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru, ac mae gan bob un boblogaeth gyfartalog o tua 1500. Mae'r siart ar y dudalen nesaf (tudalen 19) yn dangos ystod y siaradwyr Cymraeg yn yr LSOAs ym mhob bwrdd iechyd lleol. Nid yw hyd y barrau yn y siart yn gymesur â nifer yr LSOAs ym mhob bwrdd iechyd. Pen uchaf pob bar yw cyfartaledd yr 20 LSOA â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob bwrdd iechyd: gwaelod pob bar yw cyfartaledd yr 20 LSOA â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob bwrdd iechyd. Defnyddiwyd cyfartaleddau setiau o 20 LSOA fel na fyddai'r canlyniadau'n cael eu hystumio gan un neu ddwy LSOA sydd â lefelau annodweddiadol uchel neu isel o siaradwyr Cymraeg.

Mae'r siart ar y dudalen nesaf (tudalen 19) yn dangos mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y lefelau isaf o siaradwyr Cymraeg ym mhob bwrdd iechyd: mae gan bob bwrdd iechyd LSOAs lle mae llai na 6 i 9 y cant o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Ond mae yna wahaniaethau mawr rhwng y lefelau uchaf o siaradwyr Cymraeg, o gyfartaledd o 83 y cant ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i 18 y cant ym Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan.

Mae hyd y barrau yn y siart yn dangos ystod y siaradwyr Cymraeg yn yr LSOAs ym mhob bwrdd iechyd lleol: nid ydynt yn gymesur â nifer yr LSOAs.

amrywiaeth yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg mewn LSOAs o fewn Byrddau Iechyd Lleol



Mae tablau 19 ac 20 yn dangos lefelau siaradwyr Cymraeg ar gyfer y byrddau iechyd, a'r lefel uchaf a'r lefel isaf ar gyfer yr awdurdodau lleol a wasanaethir gan y byrddau iechyd.

tabl 19

Betsi Cadwaladr	Powys	Hywel Dda	Abertawe Bro Morgannwg	Cwm Taf	Aneurin Bevan	Caerdydd a'r Fro
99 LSOA	3 LSOA	75 LSOA	4 LSOA	0 LSOA	0 LSOA	0 LSOA
sydd â thros hanner y boblogaeth sy'n siaradwyr Cymraeg, sef						
23%	4%	33%	1%	0%	0%	0%
o'r 423 LSOA	o'r 79 LSOA	o'r 229 LSOA	o'r 327 LSOA	o'r 190 LSOA	o'r 368 LSOA	o'r 293 LSOA
A						
204 LSOA	18 LSOA	173 LSOA	27 LSOA	6 LSOA	0 LSOA	10 LSOA
sydd â phoblogaeth o dros 1 o bob 5 o siaradwyr Cymraeg, sef						
48%	23%	76%	8%	3%	0%	3%
o'r holl LSOAs yn y bwrdd iechyd						

tabl 20

cyfartaledd canrannau'r 10 LSOA sydd â'r...			
... lefelau uchaf ...		... lefelau isaf ...	
... o siaradwyr Cymraeg			
<i>Betsi Cadwaladr</i>	Ynys Môn	74%	39%
	Gwynedd	86%	35%
	Conwy	58%	13%
	Sir Ddinbych	48%	12%
	Sir y Fflint	24%	7%
	Wrecsam	24%	8%
	<i>Powys</i>	Powys	45%
<i>Hywel Dda</i>	Ceredigion	60%	32%
	Sir Benfro	50%	8%
	Sir Gaerfyrddin	66%	20%
<i>Abertawe Bro Morgannwg</i>	Abertawe	27%	5%
	Castell-nedd Port Talbot	45%	7%
	Pen-y-bont ar Ogwr	14%	7%
	<i>Cwm Taf</i>	Rhondda Cynon Taf	20%
	Merthyr Tudful	11%	6%
<i>Aneurin Bevan</i>	Caerffili	15%	8%
	Blaenau Gwent	9%	6%
	Torfaen	12%	8%
	Sir Fynwy	10%	11%
	Casnewydd	12%	7%
<i>Caerdydd a'r Fro</i>	Bro Morgannwg	14%	8%
	Caerdydd	23%	6%

DULLIAU ANUNIONGYRCHOL O FESUR SIARADWYR CYMRAEG A GWASANAETHAU IECHYD


Mae'r adran hon yn cyflwyno amrywiaeth o ddata o Gyfrifiad 2011 yn ymwneud â siaradwyr Cymraeg a grwpiau demograffig o bobl sy'n debygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd. Y grwpiau yw:

- pobl â salwch cyfyngus hirdymor;
- pobl ag iechyd gwael neu wael iawn;
- pobl 75 oed a throsodd;


ynghyd â data o'r Arolwg Defnydd Iaith ar y defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â chyrrff cyhoeddus (gwasanaethau iechyd o bosibl, ond nid o reidrwydd).

Mae Tabl 21 yn dangos canrannau siaradwyr Cymraeg a phobl â salwch cyfyngus hirdymor. Mae'r canrannau yn annibynnol ar ei gilydd. Hynny yw, mae'r canrannau yn nodi siaradwyr Cymraeg (heb ystyried eu hiechyd) a phobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor (heb ystyried gallu yn y Gymraeg).


Mae'n bosibl bod y ddau grŵp yn gyfan gwbl ar wahân ac nad oes unrhyw berson â salwch cyfyngus hirdymor yn siarad Cymraeg.



Mae'n bosibl bod yna berthynas weithredol rhwng y ddau grŵp a bod pob person sydd â salwch cyfyngus hirdymor yn siarad Cymraeg.



Ond byddai'r ddau eithaf yn annhebygol iawn ac nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw'r ddau grŵp wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal.



Mae'r mapiau o dan dabl 21 yn dangos pa mor wahanol neu debyg yw lleoliad crynodiadau'r siaradwyr Cymraeg a'r bobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol i dablau 22 a 23. Mae tablau 22 i 25 yn cynnwys data ar gyfer grwpiau o bobl sy'n fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd ac sy'n siarad Cymraeg.

Gofynnodd Cyfrifiad 2011 gwestiwn am salwch cyfyngus hirdymor:


- 23** A oes gennych broblem iechyd neu anabledd sydd wedi para neu sy'n debygol o bara am o leiaf 12 mis, ac sy'n cyfyngu ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol?
- ☒ Cynhwyswch problemau sy'n gysylltiedig â henaint
 - ☐ Oes, yn cyfyngu'n fawr
 - ☐ Oes, yn cyfyngu ychydig
 - ☐ Nac oes

Tabl 21

Canran y siaradwyr Cymraeg a chanran y bobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor, byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

	canran y siaradwyr Cymraeg	canran y bobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	30.8%	21.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	18.6%	21.4%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	36.7%	23.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	12.0%	24.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	11.6%	26.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	9.9%	23.4%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	11.0%	18.6%
Cymru	19.0%	22.7%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011



Gofynnodd Cyfrifiad 2011 gwestiwn am iechyd cyffredinol:

13 Sut mae eich iechyd yn gyffredinol?


Da iawn Da Gweddol Gwael Gwael iawn

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Tabl 22
canran y siaradwyr Cymraeg a chanran y bobl sydd ag iechyd gwael neu wael iawn, byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

	canran y siaradwyr Cymraeg	canran y bobl ag iechyd gwael
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	30.8%	6.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	18.6%	6.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	36.7%	7.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	12.0%	8.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	11.6%	9.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	9.9%	8.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	11.0%	6.4%
Cymru	19.0%	7.6%


ffynhonnell: Cyfrifiad 2011



Tabl 23
canran y siaradwyr Cymraeg a chanran y bobl 75 oed a throsodd, byrddau iechyd yng
Nghymru, 2011

	canran y siaradwyr Cymraeg	canran y bobl 75 oed a throsodd
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	30.8%	9.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	18.6%	10.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	36.7%	9.8%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	12.0%	8.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	11.6%	7.7%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	9.9%	8.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	11.0%	7.1%
Cymru	19.0%	8.6%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011



Tabl 24

canran y bobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor sy'n gallu siarad Cymraeg, byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

	gweithgareddau dyddiol ddim yn gyfyngedig	gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu ychydig	gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu llawer
... ac yn gallu siarad Cymraeg			
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	32.4%	26.2%	24.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	19.5%	15.2%	15.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	37.8%	33.4%	32.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	12.9%	10.1%	8.8%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	14.0%	6.0%	4.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	12.0%	4.3%	2.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	12.4%	6.1%	3.9%
Cymru	20.5%	15.2%	13.0%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 25

canran y bobl â lefelau iechyd cyffredinol gwahanol sy'n gallu siarad Cymraeg, byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

	iechyd da neu dda iawn	iechyd cymharol dda	iechyd gwael neu wael iawn
... ac yn gallu siarad Cymraeg			
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	32.7%	24.9%	21.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	19.9%	14.2%	13.6%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	38.1%	33.9%	28.7%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	13.1%	9.3%	7.7%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	14.1%	5.2%	4.0%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	12.2%	3.2%	2.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	12.6%	4.8%	3.6%
Cymru	20.8%	14.0%	10.8%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 26
canran y plant 3 i 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, byrddau iechyd yng Nghymru, 2011

	cyfanswm 3 i 15 oed	y nifer 3 i 15 oed ... ac yn gallu siarad Cymraeg	canran 3 i 15 oed
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	99,224	48,753	49.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	19,000	7,582	39.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	54,064	29,957	55.4%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	74,286	19,511	26.3%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	44,220	12,892	29.2%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	89,215	31,146	34.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	68,672	18,909	27.5%
Cymru	448,681	168,750	37.6%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 27
canran y bobl 75 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, byrddau iechyd yng
Nghymru, 2011

	o dan 75 oed	75 oed a throsodd
	... ac yn gallu siarad Cymraeg	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	31.1%	27.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	18.8%	16.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	36.3%	40.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	11.9%	12.9%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	12.2%	5.5%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	10.6%	2.1%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	11.5%	4.7%
Cymru	19.2%	17.5%

ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Gofynnodd yr Arolwg Defnydd Iaith i ymatebwyr ym mha sefyllfaoedd eu bod yn defnyddio'r iaith.

Tabl 28
siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chyrff cyhoeddus, ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru, 2013-15

	yn defnyddio'r Gymraeg bob amser	yn defnyddio'r Gymraeg fel arfer	yn defnyddio'r Gymraeg weithiau	byth yn defnyddio'r Gymraeg
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	23%	19%	20%	39%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	7%	13%	23%	58%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	12%	19%	28%	40%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	5%	8%	21%	66%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf	4%	5%	24%	67%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan	3%	4%	17%	76%
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	9%	11%	22%	58%

ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15

DULLIAU UNIONGYRCHOL O FESUR SIARADWYR CYMRAEG A GWASANAETHAU IECHYD

Mae'r adran hon yn cyflwyno ystadegau amrywiol yn ymwneud â:

- dewis iaith wrth ymwneud â staff iechyd a gofal cymdeithasol;
- gallu meddygon teulu i siarad Cymraeg;
- galwadau ffôn i Galw Iechyd Cymru;
- addysg yn ymwneud â meddygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;
- data Cyfrifiad 2011 yn ymwneud â'r grwpiau galwedigaethol sy'n gysylltiedig ag iechyd a'r diwydiant 'iechyd pobl a gweithgareddau gwaith cymdeithasol', ynghyd â siaradwyr Cymraeg.

Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran yn yr Arolwg Cenedlaethol nodi pawb ar yr aelwyd sy'n gallu siarad Cymraeg. Wedyn, cafodd pob siaradwyr Cymraeg ar yr aelwyd gopi o holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith i'w gwblhau ei hun. Nod yr arolwg hwn oedd derbyn gwybodaeth gan oedolion a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.

Am y tro cyntaf, roedd [Arolwg Cenedlaethol](#) 2014-15 yn cynnwys cwestiwn am ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) wrth ymwneud â staff iechyd neu ofal cymdeithasol, a chwestiwn yn holi a oedd y Gymraeg wedi'i defnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Tabl 29
dewis iaith wrth gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol,
canran siaradwyr Cymraeg, Cymru, 2014-15

	Cymraeg	Saesneg	y naill neu'r llall	% y siaradwyr Cymraeg oedd yn dewis defnyddio'r Gymraeg neu'r naill iaith neu'r llall	% y bobl oedd yn dewis defnyddio'r Gymraeg neu'r naill iaith neu'r llall
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	25%	57%	18%	43%	15%
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	8%	80%	12%	20%	5%
